

Uned Technolegau Iaith

Prifysgol Bangor

Techiaith.bangor.ac.uk

Trwy ddulliau technoleg



Seilwaith Cyfathrebu Cymraeg

Bydd y project hwn yn gam mawr ymlaen tuag at wireddu'r nod o gael system cyfieithu lleferydd-i-leferydd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Gan ddechrau ym mis Awst 2015, byddwn yn ymchwilio i reoli teclynau'n Gymraeg gyda gorchmynion llafar, holi'r we am wybodaeth yn Gymraeg, a thrawsgrifio'n awtomatig yn Gymraeg.




Bydd hyn yn adeiladu ar waith a wnaed gennym eisoes ar dechnoleg lleferydd a chyfieithu peirianyddol Cymraeg. Ariannwyd y project gan Lywodraeth Cymru drwy eu Cronfa Technoleg a Chyfyngau Digidol Cymraeg.

Yr Ap Paldaruo



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu eu llais drwy'r ap Paldaruo hyd yn hyn. Mae dros 600 o bobl o bob oed, pob tafodiaith ac acen bellach wedi gwneud. Mae casglu corpws fel hyn o wahanol leisiau yn bwysig iawn ar gyfer datblygu adnabod lleferydd, ac mae'r corpws nawr yn cael ei ddefnyddio i wneud hynny ar gyfer y Gymraeg.



System Cyfieithu Cyfieithu Cymru

Mae'r Uned wedi datblygu yr unig system gyfieithu fasnachol sydd wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n ymgorffori trefn reoli llif gwaith, cof cyfieithu, Cysill i wirio sillafu a gramadeg a brasgyfieithu peirianyddol. Cysylltwch â Stefano Ghazzali am ragor o wybodaeth: s.ghazzali@bangor.ac.uk.

Deunaw o gyfieithwyr yn ennill Tystysgrif Ôl-radd Astudiaethau Cyfieithu a Technoleg Cyfieithu Prifysgol Bangor

Llongyfarchiadau i'r 18 sydd wedi ennill y dystysgrif dan broject TILT eleni. Roedd hwn yn project wedi'i noddi dan raglen Dysgu yn y



Gweithle Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Hyfforddwyd 31 cyfieithydd i gyd, yn cynrychioli 25 cwmni o'r sector preifat, a bu canmol mawr ar y cwrs – gw. rhai

o'r astudiaethau achos ar

<http://www.tiltcymru.org.uk/wordpress/bangor/astudiaethau-achos/>.

Nodweddion newydd i'r Ap Geiriaduron

Yr Ap Geiriaduron yw un o gynnyrch mwyaf poblogaidd yr Uned. Erbyn 27/07/15 roedd yr ap wedi'i lwytho i lawr 43,783 gwaith a'i ddiweddarau 60,497 gwaith.



Erbyn hyn mae hefyd yn cynnig *Geiriadur Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, ac mae'n medru cynnwys diffiniadau, lluniau a diagramau. Ar gael ar gyfer dyfeisiau Android ac iOS.

Y Pyrrh Cenedlaethol yn .cymru

Mae'r tri Porth Cenedlaethol mae'r Uned yn gyfrifol amdanynt bellach wedi mabwysiadu



cyfeiriadau .cymru. Gyda'r defnydd helaeth sy'n cael ei wneud o'r tri, gobeithio y bydd hyn yn hwb fawr i'r brand .cymru newydd.



<http://termau.cymru/>

Dyma'r Porth sy'n rhoi mynediad i chi at *Y Teriadur Addysg, Geiriadur Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Termau'r Cyngor Gofal*, holl eiriaduron natur Cymdeithas Edward Llwyd, a mwy, i gyd drwy un blwch chwilio hwylus.



<http://corpws.cymru/>

Mae hwn yn gadael i chi chwilio nifer o gorpora Cymraeg a dwyieithog ar-lein yn ddidrafferth, gan gynnwys Corpws CEG, Corpws Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, a chorpws o Gymraeg academiaidd DECHE, a noddwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



<http://techiaith.cymru/>

Mae'r Porth yma yn gadael i ddatblygwyr meddalwedd, dylunwyr gwe, clybiau codio ac unrhyw un arall sy'n gweithio gyda'r Gymraeg yn y cyfryngau digidol gael gafael ar nifer o gydrannau meddalwedd, allwedd API, ac adnoddau pwysig eraill yn rhad ac am ddim.

Pwy ydym ni?

Mae'r Uned Technolegau Iaith yn uned ymchwil hunan-gyllidol o fewn Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor.

